

HWYRACH i Dwynog ymarfer gymaint ar adrodd storiâu yn ystod ei fachgendod fel y tyfodd yn ddiweddarach i fod yn storïwr penigamp.

Yn ôl fy mam ar aelwyd Preswylfa y clywodd y Parchg. J. Williams stori Cadair Tregaron yn cael ei hadrodd gan Dwynog. Hon yw'r stori gyntaf a geir ganddo yn ei gyfrol o storiâu byrion, *Straeon y Gilfach Ddu*. Gan fod hon yn stori wir am Rymni ac yn rhan o saga'r lle fe'i hadroddaf yma.

Ar ddechrau'r stori mae Pwylgor Côr y Gilfach Ddu, hynny yw Rhymni, yn

RHODDION a mawr ddiolch

£22.00: W. Armon Ellis, Licswm.

£17.00: Dr A. Rh. Wiliam, Y Rhyll; J Roberts Williams, Llanrug.

£10.00: A. Owen, Mayfield.

£7.00: Miss C. Ll. Griffith, Llandegfan; Dr G. D. Loveluck, Marianglas; W. M. Griffith, Morfa Bychan; D. Brown, Castle Donington; Hafina Clwyd, Rhuthun.

£5.50: R. T. Jones, Llanarmon yn Iâl.

£5.00: G. Charles, Y Rhyll; Dr R. G. Gruffydd, Aberystwyth; Mrs D. Thomas, Llanwnda; E. E. Wigley, Bontnewydd.

£4.00: T. H. Godfrey, Darlington.

£3.00: W. B. Jones, Abererch; Rh. G. Jones, Pentyrch; Miss C. M. Jones, Caergybi; J. H. Evans, Caerdydd; M. G. Owen, Criech.

£2.00: Miss E. M. Rees, Llanbedr Pont Steffan; Mrs T. B. Jones, Caernarfon; W. J. Jones, Caerdydd; R. Jones, Llanfairfechan; H. E. Jones, Rhoshirwaun; G. Williams, Woking; Ll. Williams, Caerdydd; G. I. Jones, Llandegfan; E. Jones, Llanbedr Pont Steffan; W. J. Williams, Bangor; Dr W. B. L. Evans, Penrhyn-coch; Mrs M. Hughes, Pontfadog; Mrs M. E. M. Morris, Bangor; C. Jones, Wrecsam; Dr J. L. Madden, Aberystwyth; D. H. Rees, Llanelli; G. E. Jones, Blaenau Ffestiniog; R. G. Roberts, Lerpwl; Mrs E. Owen, Dolgarrog; W. H. Morris, Llanberis; G. Blythman, Llandwrog; G. R. Tilsley, Llandudno; G. E. Evans, Southampton; M. H. Greenacombe, South Croydon; Mrs M. Thomas, Porthaethwy; J. Williams, Llanbedr D. C.; G. J. Williams, Rhuthun; D. C. Griffiths, Trefor; B. M. Kerfoot, Abergele; R. C. O. Davies, Llanarthne.

£1.00: W. M. Davies, Abergele; J. Ll. Williams, Llanfugail.

penderfynu bod y côr i gystadlu yn Eisteddfod Tregaron; y darn a ddewiswyd ar gyfer y gystadlueaeth oedd *Worthy is the Lamb*.

Â'r stori ymlaen i sôn am Ioan Gwent, yr unig un yn yr ardal a ystyrir yn dipyn o fardd ac a gyfansoddodd sawl pennill a roid ar y cerrig beddau yn y fynwent.

Ni ystyrir ef yn fardd mawr, ond sylw'r mamau fod yn haws gan y plant gofio penillion Ioan nag eiddo unrhyw fardd arall.

Pan oedd y côr wrthi'n paratoi ar gyfer yr Eisteddfod sylw'r gweithwyr a adawai'r pwll yn hwyr yn y nos fod y gannwyll yn dal i losgi yn ystafell Ioan, ond ni soniai neb am ddim arall ond yn unig am ragolygon y côr a chlywid *Worthy is the Lamb* ymhobman trwy'r pentref, hyd yn oed ar dafodau'r plant ar eu ffordd i'r ysgol.

Nid oedd neb yn gweithio yn y Gilfach Ddu ar ddiwrnod mawr yr Eisteddfod a chwarae teg i'r perchennog, byddai'n anghofio'r golled pan ddeuai'r newydd, gyda'r nos, fod y côr wedi ennill. Byddai ef yn un o'r rhai cyntaf i gael y newydd.

Gofalai Sioni'r Achos am hynny, canys câi Sioni chwecheiniog am ei drafferth. Cyn gynted ag y cyrrhaeddi'r newydd brasgarn Sion i'r offis.

Tair ceiniog oedd y tâl pan fyddai'r côr wedi colli a chwecheiniog pan fyddai wedi ennill. Byddai saith neu wyth o fechgyn mawr garw yn mynd gyda'r côr i weld ei fod yn cael chwarae teg. Cafodd sawl beirniad le i edifarhau am wneud camwri.

Y diwrnod cyn yr Eisteddfod hawdd gwybod bod cwmwl trannoeth yn taflu ei gysgod dros y lofa. Byddai'r talcennau glo'n diasbedain gan nodau mawreddog *'Blessing and Glory and Power be unto Him, unto Him'*, a phe eisteddech ar y mlynedd moel uwchben y pentref clywch y merched yn canu'r un gân ymhob tŷ.

* * *

OND BU diwedd sydyn ar y canu. Darganfu rhyw wraig y diwrnod cyn yr Eisteddfod fod teligram i rywun yn y pentref newydd gyrraedd y Llythyrdy a ffwrdd â hi a'i hanadl yn ei dwrn i gyhoeddi i bawb fod 'teligriff' ar y ffordd.

Rhuthrodd pawb i'w drysau. Cennad marwolaeth oedd pob teligram a ddaeth erioed i'r pentref.

Daeth taw ar yr holl ddyfalu pan ymddangosodd y postfeistr a sefyll wrth ddrws Marged Watkin, mam Ioan Gwent. Yr oedd wyneb Marged fel y galchen. Hysbysodd hi mai i Evan Watkin, sef Ioan Gwent y cyfeiriwyd y teligram oedd yn gorwedd ar y ford, gan fod Marged yn crynu gormod i gydio ynddo.

Llanwyd y tŷ â chymdogion. Ni feiddiai neb gyffwrdd â'r

teligram gan y gwyddai pawb beth oedd ynddo. Un mab arall oedd gan Marged oedd yn weinidog mewn capel bach yn y wlad.

Wylai Marged â'i holl galon a'r gwragedd i gyd gyda hi. Nid oedd neb â'r ddawn i dorri'r garw fel Dafydd Jones. Aeth i'r pwll i gwrdd â Ioan.

'Beth sy'n bod?' gofynnai Ioan. 'Oes rhywbeth yn bod ar mam?' 'Nag oes, 'machgen i', ebe'r hen wr, 'dim byd ar dy fam.'

Ar y ffordd gwelent olion galar ar bob llaw. Yr oedd y bleinds i lawr ar bob ffenestr yn y pentref. Erbyn iddynt gyrraedd y tŷ eisteddai Marged Watkin yn y gadair fawr yn y gongl nesaf at y tân a'i phen yn ei neisied boced.

Ar bob cadair arall eisteddai'r cymdogion a'u neisiedi yn eu dwylo. Ar y bwrdd yr oedd lliain cyn wynedd â'r carlwm ac ar y canol gorffwysai'r teligram, heb ei agor. Yr oedd wyneb Ioan yn ddu fel y glo a dwy ffrwd o chwys wedi rhigoli'r llwch ar ei ddeurudd. Bu distawrwydd mawr tra darllenai Ioan y teligram. Edrychodd Ioan yn hir ar y teligram a daliai pawb ei anadl.

'Mam,' meddai ef o'r diwedd, 'Cwnwch y bleinds 'na'. 'Bachan ofnadw,' ebe un o'r cymdogion, 'cwni'r bleinds, a dy frawd wedi marw.' 'Dyw fy mrawd ddim wedi marw,' ebe Ioan, 'cwnwch y bleinds 'na'.

Er yr holl ymgais i wybod beth oedd cynnwys y teligram yr unig beth a ddywedai Ioan oedd mai rhywbeth iddo ef ei hun oedd ynddo.

* * *

CYNNWYS y teligram oedd *'Wanted at Tregaron tomorrow. Come early without fail'*. Y gair 'early' a flinai Ioan. Onibai am hwnnw gallai fynd ar yr un trên â'r côr, ond ni fyddai hwnnw'n cyrraedd hyd y prynhawn.

Yr unig ffordd amdani oedd cerdded yr wyth filltir a hanner i'r cyffordd yn y bore bach i gwrdd â'r 'mail'. Cododd yn gyynnar a chyrraeddodd yr orsaf awr a hanner cyn pryd. Daeth y trên o'r diwedd a ffwrdd ag ef yn syth i Dregaron.

Ym Mhantffynnon pwy ddaeth i'r trên ond Salamus a Siencyn Wyn, dau eisteddfodwr pybyraf y dydd, hwythau ar eu ffordd i Dregaron a chan iddynt sôn am bopeth ond y gadair teimlodd Ioan yn sicr fod y ddau wedi cynnig amdani.

Wedi iddo gyrraedd y Babell yn Nhregaron gwelodd Ioan mai cwmbl ddiangen oedd y geiriau *'Come early'* ar y teligram. Buwyd wrthi gyda'r unawdau a'r adrodd ac araith y llywydd hyd yn ddiweddar yn y prynhawn. Ond o'r diwedd dechreuwyd ar baratodau'r cadeirio.

Llanwyd y Babell. Yna clywyd mwy o sŵn nag arfer yng nghefn y babell a sibrdw bod côr y Gilfach Ddu wedi cyrraedd.

Dyna'r gadair ar y llwyfan, canu'r Corn Gwlad, y beirdd ar y llwyfan a'r feirniadaeth yn cael ei darllen ac Eiddil yn orau allan o dri ar ddeg a'r Archdderwydd yn rhywgo'r awyr, 'Os yw Eiddil yn wyddfoddawl safed ar ei draed'.

'Ych chi'n dishgwll iddo sefyll ar 'i ben 'te?' ebe llais main Morgannwg yn y cefn.

Pan wnaed yn sicr mai Ioan Gwent oedd biau'r gadair wylai'r merched a neidiai bechgyn y Gilfach Ddu a chafodd un ohonynt enw newydd a lynodd wrtho hyd ei fedd, 'Twm gollws i gap'.

Danfongwyd dau fardd o'r llwyfan i gyrchu'r buddugwr i'w gadair. Ni bu raid iddynt gerdded ymhell, oherwydd yr oedd dau o fechgyn y Gilfach Ddu yn cario Ioan ar eu hysgwyddau i gyfeiriad y llwyfan.

Treuliodd Ioan Gwent y noson honno yn Nhregaron oherwydd y rheol nad oedd y gadair i adael y llwyfan nes y byddai'r Eisteddfod drosodd ac nid oedd gobaith am hynny hyd hanner nos. Treuliodd y noson a'i gadair gydag ef mewn gwesty gerllaw. Ni chysgodd ddim ond breuddwyddioedd lawer.

* * *

YR UNIG fai a ddarganfu beirniad y côr oedd bod tuedd i siarpio yn y tenoriaid. 'Fe siarpe tith hefyd tae ti mor falch â fi. O'r Ioan bach ag ef!' ebe Dai Jones. Am y côr, digon yw dweud i rywrai weld Sioni'r Achos yn brasgamu'n gynt nag arfer i'r offis ac iddo ddyfod yn ôl a dwy chwech loyw yn ei law, tan foliannu Ioan Gwent a chôr y Gilfach Ddu.

Lledodd y sôn am Ioan Gwent i bob tŷ yn y pentref a phenderfynwyd nad oedd neb i fynd i'r lofa drannoeth. Wedi i Ioan gyrraedd yr orsaf ni chafodd roddi ei draed ar y llawr nes cyrraedd carreg aelwyd ei fam.

Dyna'r unig gadair a gafodd Ioan Gwent. Ymhen blwyddyn neu ddwy gwelwyd bod yr un afiechyd a aeth â'i dad i'w fedd yn ddeugain oed, sef y darfodedigaeth, wedi gafael ynddo yntau ac ymhen tipyn gwelwyd gorymdaith ddu yn troi i'r fynwent a Dai Jones ymlaenaf dan yr elor.

I'w gwblhau

AR WERTH

Hugh J. Owen: *Echoes of Old Merioneth. Dolgellau, 1944* - £8.50.

Fred S. Price: *History of Llansawel. Abertawe, 1898* - £15.75.

Gomer M. Roberts: *Hanes Plwyf Llandybie. Caerdydd, 1939* - £12.00.

R. J. Thomas: *Enwau Afonydd a Nentydd Cymru. Caerdydd, 1938* - £22.50.

John Meurig Jones, *Brynawelon, Swyddffynnon, Ystrad Meurig, Dyfed.*